# PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

Dydd Iau, 1 Medi 2016

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd T. Davies (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
W.T. Evans, H.I. Jones (yn lle H.B. Shepardson) a/ac D. Price

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
L.R. Jones, Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith
G. Morgan, Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd
M Edwards, Corporate Learning & Development Advisor
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Y Siambr, Neuadd y Sir - 10.00 am - 10.45 am**

**1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr J.D. James a H.B. Shepardson.

**2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL**

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol.

**3. COFNODION - 17EG MAWRTH 2016**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi cofnodion cyfarfod Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd oedd wedi ei gynnal ar 17eg Mawrth 2016 gan eu bod yn gywir.**

**4. Y TREFNIADAU SEFYDLU A DATBLYGU AR GYFER AELODAU 2016/17**

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i adroddiad a geisiai gymorth i hyrwyddo cyfarfodydd un i un Datblygu Aelodau er mwyn cael darlun clir o unrhyw ddatblygu yr oedd angen mynd i'r afael ag ef dros y 6-8 mis nesaf. Hefyd gwahoddwyd sylwadau'r Pwyllgor ar y cwestiynau allweddol yr oedd angen eu gofyn i'r aelodau fel rhan o Arolwg Sefydlu Cynghorwyr er mwyn llywio'r modd y gweithredir rhaglen sefydlu gyflawn, wybodus ac effeithiol ar gyfer 2017.
Roedd consensws cyffredinol y dylid anfon nodyn atgoffa arall at Arweinwyr pob Grŵp Gwleidyddol yn pwysleisio'r angen i gynnal cyfarfodydd un i un gyda'u haelodau er mwyn penderfynu ar eu hanghenion hyfforddiant. Dywedodd y Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith ei bod hi a'r Prif Weithredwr yn cwrdd ag Arweinwyr y Grwpiau yn rheolaidd, ac y byddai'n codi'r mater yn y cyfarfod nesaf. Cytunwyd bod nodyn atgoffa yn cael ei anfon at Arweinwyr y Grwpiau gan yr Hyrwyddwr Datblygu Aelodau, y Cynghorydd W.T. Evans, a'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Adnoddau Dynol, Effeithlonrwydd a Chydweithio.

O ran yr Arolwg Sefydlu Cynghorwyr, croesawodd yr aelodau y syniad o fentora aelodau newydd a barnwyd y gallai pob aelod newydd gael ei fentora gan swyddog ac aelod profiadol. Hefyd awgrymwyd y dylai'r rhaglen Sefydlu roi golwg gyffredinol i'r aelodau ar faterion cynllunio gan bwysleisio pa mor bwysig yw bod yn ddiduedd. Yn ogystal cafodd cynnal cyfweliadau ei awgrymu fel pwnc.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**

**4.1 cymeradwyo'r cam gweithredu uchod sy'n ymwneud â phenderfynu ar anghenion hyfforddiant yr aelodau;**

**4.2 rhoi gwybod i Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd am unrhyw faterion yn ymwneud ag anghenion hyfforddiant a sefydlu Aelodau.**

**5. ADOLYGU GWYBODAETH AR-LEIN Y CYNGOR O DAN Y PENNAWD CYNGOR A DEMOCRATIAETH**

Soniwyd wrth y Pwyllgor am y wybodaeth oedd ar gael ar hyn o bryd ar adran Cyngor a Democratiaeth y wefan gorfforaethol, a oedd bellach yn cynnwys dolen i'r Côd Ymddygiad diwygiedig ar gyfer Aelodau ac Aelodau Cyfetholedig. Yn ogystal, dros y misoedd nesaf, byddai gwybodaeth am 'Sut mae bod yn Gynghorydd' yn cael ei hychwanegu yn barod ar gyfer etholiadau'r llywodraeth leol ym mis Mai 2017.

Mynegodd y Cadeirydd ei siom ynghylch cyn lleied o Aelodau oedd wedi llwytho Adroddiadau Blynyddol ar gyfer 2015, a chytunwyd y byddai'n ddefnyddiol cael manylion ynghylch faint o bobl oedd wedi bwrw golwg ar yr adroddiadau.

Mewn ymateb i ymholiadau, rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor y byddai'r Flaenraglen Waith newydd ar gyfer y Bwrdd Gweithredol yn cael ei llwytho i'r wefan yn fuan, a bod materion hyrwyddo cwestiynau gan y cyhoedd a hwyluso deisebau ar-lein yn cael sylw.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

| | |
|---|---|
| ________________________ | __________________ |
| **CADEIRYDD** | **DYDDIAD** |